**Dyddiad:** 16 Ionawr 2003
**Amser:** 9.30am
**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 ac 4
**Teitl:** Adroddiad ‘Dweud eich Dweud’

**Dweud eich Dweud - Y Gynhadledd i Bobl Ifanc Anabl a'r Camau Dilynol**
Ar 3 Rhagfyr 2001, cynhaliwyd cynhadledd yn y Cynulliad er mwyn dathlu Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl, ac er mwyn galluogi pobl ifanc anabl i leisio eu pryderon i Weinidogion a swyddogion y Cynulliad.

Diben y gynhadledd i'r ifanc yn 2001 oedd bod yn gyfrwng i bobl ifanc anabl dynnu sylw gwleidyddion ac uwch swyddogion y Cynulliad at faterion sydd o bwys mawr i bobl ifanc anabl yng Nghymru.

Daeth yn amlwg bod y prif bryderon yn ymwneud â chyfleoedd cyfartal i gael gafael ar wasanaethau trafnidiaeth, addysg a iechyd, ar gyfleusterau hamdden, ac ar gyfleoedd am waith.

Ar 10 Ionawr 2002, o ganlyniad uniongyrchol i'r gynhadledd i bobl ifanc anabl, cytunodd y Cynulliad ar gynnig a oedd yn nodi ei fod:

1. yn croesawu’r digwyddiad a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2001 i nodi diwrnod rhyngwladol pobl anabl ac yn nodi llwyddiant y digwyddiad a’r cwestiynau a ofynnwyd gan bobl ifanc yn ystod y sesiwn holi;

2. yn cydnabod rôl bwysig pobl ifanc, ac yn benodol pobl ifanc anabl, o ran datblygu polisi’r Cynulliad;

3. yn nodi yr eir ar drywydd polisi o gynhwysiant ar draws portffolios y Cabinet ac ar sail systematig; ac

4. yn derbyn dilysrwydd y model cymdeithasol o anabledd ac yn cydnabod yr angen i gynnwys yr egwyddor hon fel rhan ganolog o bolisïau’r Cynulliad Cenedlaethol.

Trwy fabwysiadu'r cynnig hwn, Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff cyntaf o'i fath yn Ewrop i fabwysiadu'r model cymdeithasol o anabledd. Y mae hyn eisoes wedi cael effaith ar

strategaeth recriwtio a chyflogi'r Cynulliad.

**Camau Dilynol**
Yn dilyn y gynhadledd ar 3 Rhagfyr, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal at bob un o Weinidogion y Cynulliad, yn tynnu sylw at y materion a godwyd yn ystod y drafodaeth. Gofynnodd hefyd am wybodaeth ynghylch y gwaith sy'n cael ei gyflawni yn y meysydd y mae hwy yn gyfrifol amdanynt. Mae rhai camau i'r perwyl hwn eisoes wedi'u cymryd, ac mae cynlluniau ar y gweill am welliant parhaus ym mhob agwedd ar gyfrifoldebau datganoledig y Cynulliad.

**Mis Mai 2002**
Ym mis Mai 2002, cynulliwyd grp o bobl ifanc anabl unwaith eto yng Ngwesty'r Marriott yn Abertawe er mwyn trafod y gynhadledd ym mis Rhagfyr, a goblygiadau mabwysiadu'r model cymdeithasol. Roedd y cyfarfod yn un positif iawn, ac roedd yn amlwg bod y bobl ifanc wedi meithrin gwell dealltwriaeth o lywodraeth yng Nghymru, rôl eu Haelodau Cynulliad, a'u rôl eu hunain yn cyfrannu at y broses o lunio polisi a gwneud penderfyniadau yng Nghymru.

Gofynnwyd i'r grp a oeddynt bellach o'r farn bod y Cynulliad yn gwrando arnynt, ac a oedd y digwyddiad wedi bod yn un gwerth chweil. Er eu bod yn dal yn pryderu am lawer o faterion, yn enwedig ynghylch trafnidiaeth a mynediad i safleoedd, ysgolion, colegau ac ati, roedd yn amlwg eu bod yn teimlo bod y Cynulliad yn gwrando ar eu pryderon.

Mae'r grp wedi paratoi llyfryn o luniau o'u profiad hwy o fywyd yng Nghymru. Mae'r llyfryn yn portreadu eu bywyd delfrydol gyda chynhwysiant cymdeithasol llawn, yn ogystal â'u bywyd go iawn, ynghyd â'r holl rwystrau cymdeithasol a'r rhwystrau eraill sy'n eu hwynebu o ddydd i ddydd. Bellach, mae eu syniadau wedi'u rhoi ar glawr mewn llyfryn drafft a gyflwynir i'r Pwyllgor ar 16 Ionawr. Bydd hwn yn gofiant parhaol o'r gwaith a gynhaliwyd y llynedd gyda phobl ifanc. Bydd hefyd yn rhoi ar gof a chadw holl dalentau a galluoedd y bobl hyn, sy'n grp a fu, yn hanesyddol, o dan anfantais ac a fu heb eu cynrychioli'n llawn ym mywyd cymdeithasol Cymru. Yn ogystal, bydd yn garreg filltir i nodi newid sylfaenol mewn agweddau tuag at bobl ifanc anabl ledled Cymru, ac yn y gwaith o'u galluogi hwy i gymryd rhan lawn yn y gymdeithas. Yn dilyn trafodaeth gyda’r pwyllgor ar 16 Ionawr y gobaith yw y bydd aelodau’r pwyllgor yn cyflwyno sylwadau y gellir eu cyhoeddi ar gefn y llyfryn. Wedi hynny, bydd y llyfr yn cael ei gyhoeddi’n broffesiynol fel rhan o ddathliadau Blwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl 2003.

Mae llawer o'r bobl ifanc hyn wedi mynd ati i lunio grp sy'n cyfrannu at feysydd gwaith eraill, gan gynnwys 'Rights into Action', y Gynhadledd Ryngwladol gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc Anabl, a gynhelir yn Abertawe yn ystod mis Gorffennaf 2003. Mae'r grp eisoes wedi cyfrannu at ddatblygu enw a logo, a bydd yn helpu i ddatblygu rhaglen o ddigwyddiadau a thrafodaethau ar gyfer y Gynhadledd, a fydd yn cael ei chynnal am wythnos gyfan.

Bydd y Gynhadledd yn rhan o brosiect tymor hir er mwyn rhoi cyfle i bobl ifanc anabl rannu gwybodaeth, i gyfrannu at ymgynghoriadau, i ddarparu cymorth a chyngor i'w gilydd ac i fudiadau ieuenctid, ac i feithrin hyder. Bydd y prosiect yn mynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol trwy ganolbwyntio ar ar hawliau dynol. Bydd y digwyddiad yn un rhyngwladol, a bydd y gwaith o baratoi ar ei gyfer yn cynnwys datblygu gwefan i alluogi pobl ifanc anabl o rai o ardaloedd tlotaf a mwyaf difreintiedig y byd i gymryd rhan yn y Gynhadledd.